**Papur Pwyllgor Llywodraeth Cymru: Ymchwiliad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i Radio:**

**Pwysigrwydd ymchwiliad y Pwyllgor**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu ymchwiliad y Pwyllgor i radio yng Nghymru. Yn aml iawn, mae radio yn cael ei anwybyddu yn y drafodaeth ynghylch dyfodol darlledu yng Nghymru. Adlewyrchwyd pwysigrwydd y sector radio yng Nghymru yn Adroddiad Ofcom ar y Farchnad Gyfathrebu ar gyfer 2017. Fe wnaeth yr adroddiad nodi bod gwasanaethau radio yn cyrraedd 91.6% o oedolion yng Nghymru, sef y ganran uchaf ymhlith holl wledydd y DU – y cyfartaledd ar draws y DU oedd 89.6%. Hefyd, gwrandawyr yng Nghymru oedd yn gwrando ar y radio am y cyfnod hiraf bob wythnos o gymharu â'r DU gyfan, sef 22.7 o oriau yr wythnos ar gyfartaledd, y ffigur uchaf ers 2012 – y cyfartaledd ar draws y DU oedd 21.4 o oriau.

**Radio Digidol**

Rydym yn cydnabod bod y rhwydwaith DAB wedi gwella mewn rhai rhannau o Gymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac rydym yn annog Ofcom i barhau i gydweithio â rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys y BBC, i sicrhau y bydd hyn yn parhau. Fodd bynnag, nid yw safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â throi at radio digidol wedi newid. Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio'n gyson na fyddem o blaid troi at radio digidol oni bai bod yna warant y byddai DAB ar gael i 97% o bobl Cymru o leiaf. Ni ddylai'r gwasanaeth DAB yng Nghymru fod yn waeth na'r gwasanaeth radio AM/FM sydd gennym ar hyn o bryd a dylai fod ar gael mewn ardaloedd lle mai dim ond ar y sbectrwm AM y gellir derbyn y gorsafoedd radio cenedlaethol ar hyn o bryd.

Er bod y rhwydwaith DAB wedi gwella mewn rhai rhannau o Gymru, mae llawer o waith i'w wneud o hyd cyn y byddai'n briodol ystyried troi at radio digidol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i bryderu, hyd yn oed pan fodlonir y meini prawf arfaethedig ar gyfer troi at radio digidol ar lefel y DU, ei bod yn sicr bron y byddai'r rhwydwaith DAB a fyddai ar gael yng Nghymru yn sylweddol is.

**Radio Cymunedol**

Mae gorsafoedd radio cymunedol ledled Cymru yn darparu gwasanaeth allweddol ar gyfer trigolion lleol, drwy adlewyrchu'r materion sy'n effeithio ar bobl a'u cymunedau.

Rhwng 2008 a 2014, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ariannu Cronfa Radio Cymunedol i gefnogi gorsafoedd radio cymunedol ar draws Cymru yr oedd ganddynt drwyddedau radio cymunedol a ddyfarnwyd iddynt gan Ofcom. Oherwydd toriadau i gyllidebau ar draws y portffolio Diwylliant a Chwaraeon bryd hynny, roedd rhaid gwneud penderfyniadau anodd ynghylch cyllido, ac yn anffodus felly, daeth y Gronfa i ben.

**Radio Masnachol**

Dylid cydnabod pwysigrwydd radio masnachol yng Nghymru hefyd. Mae'r sector radio masnachol yn gwneud cyfraniad hanfodol wrth inni ystyried pwysigrwydd sicrhau bod dewis o wasanaethau yng Nghymru.

Fel Llywodraeth, ni fyddem yn dymuno gweld y rheolau lleolrwydd cyfredol ar radio masnachol yn cael eu llacio ymhellach neu'n cael eu dileu. Mae'n hanfodol bod lefel briodol o ddarpariaeth leol, yn benodol, newyddion lleol. Mae hyn hyd yn oed yn bwysicach yng Nghymru o ystyried gwendid y cyfryngau print yng Nghymru a'r diffyg sylw i faterion Cymreig ym mhapurau newyddion y DU.

**Gorsafoedd Radio y BBC**

Yn yr un modd ag y mae rhaglenni teledu BBC Cymru Wales yn bwysig, rydym yn cydnabod y rolau sy'n dal i fod gan Radio Wales a Radio Cymru i ddarparu gwasanaethau hanfodol ar gyfer dinasyddion Cymru.

Rydym hefyd yn croesawu'r ymrwymiad ar draws y ddau wasanaeth i gyfuno straeon newyddion lleol a rhyngwladol. Mae hyn yn tanlinellu natur unigryw'r gwasanaethau newyddion a ddarperir gan y ddau wasanaeth radio cenedlaethol a gwerth y gwasanaeth a ddarperir ar gyfer gwrandawyr.

Fel Llywodraeth, rydym yn bryderus ynghylch y ffaith bod ystod y rhaglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion yn culhau yn gyffredinol. Rydym felly yn croesawu'r ffaith bod Radio Wales a Radio Cymru yn parhau i ddarparu ystod gynhwysfawr o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion. Yn wir, rydym yn ystyried ystod eang y rhaglenni a ddarperir gan y ddau wasanaeth yn elfennau canolog o'r gwasanaeth cyhoeddus a ddarperir ganddynt. Yn ein barn ni, dylid cynnal yr ystod honno, a'i chryfhau hefyd lle bo modd.

Mae gan radio gyfraniad hollbwysig o ran darparu llwyfan ar gyfer talent Cymru, er mwyn tynnu sylw ato a'i ddatblygu. Mae hyn yn berthnasol i'r gerddoriaeth ar y ddau wasanaeth ac, yn yr un modd, i awduron ac actorion. Mae i radio'r cryfder penodol o ganiatáu i bobl adrodd eu hanesion eu hunain. Mae'n hanfodol bod dau wasanaeth radio Cymru yn parhau i ymdrechu i adlewyrchu darlun mor eang â phosibl o fywyd yng Nghymru. Hyd yn oed wrth i lwyfannau digidol newydd amlhau, nid ydym yn diystyru rôl dra gwerthfawr radio yn hyn o beth.

Fel yn achos teledu, rydym yn pryderu bod Cymru yn benodol yn parhau i gael ei thangynrychioli ar brif rwydweithiau radio'r DU. Ymddengys mai ychydig iawn o'r rhaglenni a gomisiynir gan y BBC ar gyfer radio rhwydwaith y DU sy'n dod o Gymru. Hoffem weld mwy o raglenni'n cael eu comisiynu oddi wrth BBC Cymru Wales; dylai'r BBC osod targedau mwy ymestynnol yn hyn o beth.

Er bod gan y ddau wasanaeth radio cenedlaethol yng Nghymru rolau pwysig i'w chwarae fel ffynonellau gwybodaeth ac adloniant, mae Radio Cymru yn chwarae rôl ychwanegol o ran sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i ffynnu. Yn hyn o beth, mae ei rôl yn fwy na rôl darlledu yn unig. Rydym yn croesawu'r ffaith bod Radio Cymru 2 wedi'i sefydlu yn ystod y misoedd diwethaf i roi rhagor o ddewis i siaradwyr Cymraeg.

Hefyd, rydym yn croesawu'r bartneriaeth gryfach sydd wedi datblygu dros y blynyddoedd diwethaf rhwng Radio Cymru ac S4C. Dim ond un gwasanaeth radio Cymraeg ac un gwasanaeth teledu Cymraeg sydd yna o hyd. Mae'n hollbwysig felly fod y bartneriaeth rhwng y ddau wasanaeth hyn mor greadigol a chynhyrchiol â phosibl.

**Rôl newydd Ofcom fel rheoleiddiwr allanol y BBC**

Rydym yn cydnabod bod hwn yn gyfnod trosiannol i Ofcom mewn perthynas â'i rôl newydd fel rheoleiddiwr allanol y BBC, ac yn derbyn bod y rôl yn gymhleth ac yn eang ei chwmpas. Mae'n hanfodol bod y BBC yn cyflawni dros gyfod nesaf y Siarter o ran y mandad cryfach sydd ganddo a'i ddyletswyddau i bobl Cymru, yn ogystal â'r rheini sydd ganddo i wledydd a rhanbarthau eraill y DU. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni radio'r BBC.

Yn ein hymateb diweddar i ymgynghoriad Ofcom ar ei Gynllun Blynyddol ar gyfer 2018-19, fe wnaethom fynegi pryder ynghylch nifer o agweddau ar rôl newydd Ofcom fel rheoleiddiwr allanol y BBC. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddarparu ymateb manwl ym mis Gorffennaf 2017 i ymgynghoriad Ofcom ar ei Drwydded Weithredu gyntaf ar gyfer y BBC. Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad, gwnaethom godi nifer o bryderon am y Drwydded ddrafft, gan annog Ofcom i fynd i'r afael â nhw er mwyn creu Trwydded derfynol a fyddai'n addas i'r diben. Roedd yn siom na chafodd y Drwydded ei diwygio i adlewyrchu nifer o welliannau pwysig a awgrymwyd ac a esboniwyd yn fanwl gan Lywodraeth Cymru yn ei hymateb i'r ymgynghoriad.

Byddwn yn parhau i gydweithio mewn ffordd adeiladol ag Ofcom, i sicrhau bod y BBC yn cael ei ddwyn i gyfrif yn briodol o ran cyflenwi ei wasanaethau. Bydd Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn monitro cynnydd y BBC yn agos mewn perthynas â gofynion y Drwydded Weithredu.

Rydym yn croesawu'r sicrwydd a roddwyd gan Ofcom y bydd y Drwydded Weithredu a'r mesurau perfformiad yn datblygu dros amser a'i fod yn disgwyl i'r BBC barhau i wella o ran sut y mae'n cyflawni yn unol â'i gylch gwaith.

**Y Gymraeg**

Fel y nodir yn strategaeth *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg*, mae'r cyfryngau darlledu wedi chwarae rhan allweddol yn ein hymdrechion i adfywio'r Gymraeg dros sawl degawd. Mae'n allweddol bod hyn yn parhau a bod y ddarpariaeth yn cynyddu, a byddwn yn gwneud popeth y gallwn i gefnogi a chynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg, beth bynnag fo natur darpariaeth o'r fath yn y dyfodol.Yn y tymor byr byddwn yn defnyddio'n dylanwad i sicrhau bod y cynnig mewn cysylltiad â radio yn parhau i fod yn gyfoes ac yn berthnasol i siaradwyr Cymraeg o bob oed.

Wrth reswm mae cerddoriaeth Gymraeg wedi profi'n ddull cadarnhaol dros ben o hyrwyddo'r iaith a chodi ymwybyddiaeth ohoni. Un ffordd mae'r Llywodraeth wedi profi gwerth hyn yw drwy ymgyrch Dydd Miwsig Cymru (DMC).Cynhaliwyd DMC am y trydydd tro ddydd Gwener 9 Chwefror eleni. Drwy ddulliau PR, marchnata a chyfryngau cymdeithasol cyrhaeddodd yr ymgyrch 74 miliwn o bobl gyda'r

hashnodau #DyddMiwsigCymru a #WelshLanguageMusicDay Cymerodd 183 o fusnesau a 318 o ysgolion ran yn yr ymgyrch ledled Cymru, gyda nifer fawr o artistiaid Cymraeg yn perfformio. Dywedodd 74% o'r bobl yr holwyd iddynt bod y diwrnod wedi gwneud iddynt eisiau dysgu Cymraeg.

Mae Radio Cymru wrth gwrs yn gyfrwng hollbwysig i sicrhau bod cerddoriaeth gyfoes Gymraeg i'w chlywed gydol y flwyddyn.

Pan fydd trwyddedau teledu a radio yn cael eu dyfarnu neu'n cael eu hadolygu ar gyfer gorsafoedd yng Nghymru, dylid rhoi ystyriaeth i natur ddwyieithog Cymru a phwysigrwydd y Gymraeg yng nghyd-destun y nod sydd gan Lywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 drwy bennu yn y cytundeb y bydd nifer penodol o oriau'n cael eu darlledu yn Gymraeg ynghyd â datganiad am gynnwys ar y we yn Gymraeg, megis testun, ffrydiau a chlipiau fideo.

Dylid gosod amrywiaeth ieithyddol, yn enwedig o ran y Gymraeg mewn gwasanaethau i Gymru, fel targed wrth ddyfarnu a rheoleiddio gwasanaethau i Gymru.